# Cyngor Tref ***NEFYN*** Town Council

<u>COFNODION</u> Cyfarfod Hybrid y Cyngor, Nos Fawrth 10/10/2023 am 7yh

**Presennol**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Mared Llywelyn Williams (Cad) | Gito Williams | Gruffydd Williams | Arfon Hughes | Gareth Jones |
| Caren Jones | Janice Evans | Lleucu Jones | Pat Humphreys (Clerc) | |

1. **Ymddiheuriadau.**
   Rhys Llewelyn, Carys Roberts, Catrin Roberts, Alaw Llewelyn Roberts a Gwynfor Jones.

2. **Datgan buddiant ariannol neu gysylltiad personnol.**
   Gareth Jones – taliad i Dylunio Swi am greu a fframio anrheg Rhys Tudur a Mared Llywelyn Williams – cais cynllunio C23/0757/42/CC

3. **Cofnodion er cywirdeb yn unig**
   Cofnodion Pwyllgor Hybrid 12/09/2023
   Penderfyniad: derbyn yn gywir.
   Cynnig: Gruffydd Williams Eilio: Gito Williams

4. **Unrhyw Fater Brys**
   - **Amgueddfa Forwrol Llŷn – cais am gefnogaeth i drefnu gŵyl benwythnos**
     Derbyniwyd ebost gan Amgueddfa Forwrol Llŷn yn gofyn am sêl bendith yr aelodau a'u cefnogaeth i gynnal Gŵyl Benwythnos ym mis Medi y flwyddyn nesaf.
     Penderfyniad: mae'r aelodau yn gefnogol iawn o'r syniad ac yn barod i help mewn unrhyw ffordd.
   - **Tendr cais llwybr Penrallt Nefyn –** Gruffydd Williams
     Mae'r Cyngor Tref wedi bod yn llwyddiannus hefo eu cais i Gronfa Cefnogi SPF Gwynedd i ddiogelu Llwybr Penrallt Nefyn a'r cam nesaf yw anfon tendar allan i 3 cwmni i brisio'r gwaith.
     Penderfyniad: cytunodd yr aelodau ar 3 cwmni ac mae aelod lleol Nefyn am wneud briff i'r Clerc ei yrru iddynt.
     Cynnig: Arfon Hughes Eilio: Gareth Jones
   - **Maes Parcio Ffordd Dewi Sant Nefyn –** Dafydd Dobson
     Cafwyd diweddariad ar y mater gan y Clerc ar ôl iddi yrru ebost i Cyngor Gwynedd ynglŷn â'r safle yma ym mis Ebrill, derbyniodd ymateb gan yr Adran Eiddo ym mis Mai gan ddweud y byddent yn casglu manylion y Pysgotwyr gyda'r bwriad o ffurfioli trwyddedau ar gyfer defnydd o'r safle i allu cyfyngu a chael trefn yna. Nid oes dim wedi cael ei wneud ganddynt ers hynny felly nid oes dim y gellir ei wneud dim ond aros i'r Adran Eiddo wneud eu gwaith.
   - **Plannu coed cynhenid –** Clerc
     Ar ôl i'r Clerc gysylltu hefo Bleddyn Prys Jones yn dweud fod gan y Cyngor Tref ddiddordeb mewn cymeryd rhan yn y prosiect yma derbyniodd ymateb ganddo yn gofyn am enwau'r tir sydd dan sylw ac felly mae'r Clerc am adael iddo wybod.
   - **Toiledau –** Gito Williams

Clerc: Pat Humphreys
Cae'r Wydden, Lôn Isaf, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6BS.
• Symudol: 07901 704410 • Ebost: clerccyngortrefnefyn@gmail.com

Mae un o'r aelodau wedi sylwi bod y toiled cyhoeddus yn Morfa Nefyn wedi cau yn ddiweddar ac mae'r Cyngor Tref yn cyfrannu tuag at y toiled yma felly mae'r Clerc am gysylltu hefo Cyngor Gwynedd i ofyn am eglurhad.

- **Tai Arweinir gan y Gymuned – Digwyddiad 18.10.2023 –** Cadeirydd
  Derbyniwyd ebost gan Steffan Smith i ofyn am gynrychiolaeth gan CTN yn y digwyddiad yn Congl Meinciau ar y 18/10/2023 ac mae rhai o'r aelodau am drio mynd yno.

5. **Oriau ychwanegol y Clerc – Cais Cronfa Cefnogi Adfywio Llwybr Penrallt Nefyn –** Clerc
   Mae'r Clerc wedi gweithio oriau ychwanegol ar y cais i Gronfa Cefnogi SPF Gwynedd i ddiolgelu llwybr Penrallt Nefyn ac wedi anfon cofnod ohonynt i'r aelodau.
   Penderfyniad: talu'r Clerc am ei oriau ychwnaegol. Fe bwyntiodd un o'r aelodau allan y bydd mwy o waith ar hyn yn ystod y misoedd nesaf felly mae'r Clerc am gadw cofnod o'r oriau ychwanegol eto a'i roi o flaen y pwyllgo ri'w basio unwiath y bydd y gwaith wedi gorffen.
   Cynnig: Gruffydd Williams Eilio: Arfon Hughes

6. **Dewis Cynghorydd a fydd yn cynrychioli yr Awdudod Addysg Lleol ar Gorff Llywodraethol Ysgol Nefyn –** Clerc
   Derbyniwyd ebost gan Ysgol Nefyn yn gofyn am gynrychiolaeth o CTN i gynrychioli yr Awdurdod Addysg Lleol ar Gorff Llywodraethol yr Ysgol gan fod Aelod Lleol Nefyn wedi ymddiswyddo, yn anffodus mae Aelod Lleol Morfa Nefyn ac Edern yn aelod o Gorff Llywodraethol dwy Ysgol yn barod ac felly yn cael ei rwystro rhag bod ar un arall ac nid oedd aelod arall eisiau rhoi eu henwau ymlaen ychwaith.

7. **Cytundeb Trydan y Llyfrgell –** Clerc
   Mae'r Clerc wedi derbyn cost blwyddyn a dwy flynedd gan E.On Next ar gyfer cytundeb i'r Llyfrgell.
   Penderfyniad: derbyn y cytundeb 2 flynedd.
   Cynnig: Arfon Hughes Eilio: Gareth Jones

8. **Cyllideb –** Arfon Hughes & Clerc
   Mae'r Is-bwyllgor Ariannol wedi cyfarfod i drafod y gyllideb ac mae'r aelodau wedi cael copi o'r cofnodion. Aeth y Clerc drwy'r gyllideb i egluro'r ffigyrau ac hefyd i egluro beth a benderfynwyd ei wneud ynglŷn â cyflog y Clerc sef gofyn iddi gofnodi faint mae hi'n wario ar gwres, trydan, ffôn symudol, bandeang a milltiroedd mae hi'n drafeilio ar waith CTN am y ddau fis nesaf ac yna cymharu codiad o 5% hefo'r ffigyrau yma. Eglurodd y Clerc hefyd y bydd rhaid codi'r ffigwr am y cyfraniad sydd yn cael ei roi tuag at y traethau gan CTN gan fod Cyngor Gwynedd wedi codi pris yr anfoneb o £5,000.00 i £5,500.00. Gofynnodd y Clerc os oedd gan yr aelodau unrhyw beth yr oeddent eisiau ei godi neu ei drafod ar y gyllideb ac roedd pawb yn hapus gyda'r ffigyrau. Diolchodd yr aelodau i'r Clerc a cadeirydd yr Is-Bwyllgor Ariannol am eu gwaith yn paratoi y gyllideb.
   Penderfyniad: yr is-Bwyllgor Ariannol i gyfarfod ddechrau mis Rhagfyr ac yna rhoi'r gyllideb ar agenda mis Rhagfyr o'r pwyllgor llawn i'w phasio.

9. **Gwasanaethau Sul y Cofio –** Clerc
   Mae'r Clerc wedi cael cadranhad o ddyddiad ac amser ar gyfer y gwasanaethau yn y tri phentref ac mae hi wedi cysylltu hefo'r Heddlu i adael iddynt wybod ac wedi rhoi ceisiadau i fewn i Cyngor Gwynedd i gau y ffyrdd yn ystod y gwasanaethau. Mae'r torchau wedi cael eu archebu ac felly mae

angen penderfynnu pwy o bob pentref fydd yn eu gosod ar ran CTN. Yr unig beth fydd ar ôl wedyn i'w wneud yn nes at yr amser yw trefnu arwyddion 'ffordd ar gau' a'u rhoi yn eu lle erbyn y gwasanaethau ac mae'r Clerc am drefnu hynny.
Penderfyniad: mae 3 aelod wedi cael eu dewis i osod y torchau ar ran CTN.

10. **Coed Nadolig a'r Gwasanaethau Goleuo –** Clerc
Mae dyddiadau wedi cael eu rhoi allan ar gyfer ymweliad Sion Corn i'r tri pentref felly mae'r Clerc yn awyddus i drefnu fod y goeden nadolig i fyny cyn y dyddiadau yma a bod y gwasanaethau goleuo yn cael eu trefnu. Mae'r Clerc wedi archebu 3 coeden gan yr un cwmni a llynedd ac mae'r aelodau yn hapus hefo'r un trefniadau a llynedd am ei gosod a gosod y goleuadau. Awgrymwyd ein bod yn gofyn i'r un cwmniau a llynedd hefyd os ydynt eisiau cyfrannu am y goeden ac mae'r Clerc am gysylltu hefo nhw. Bydd cais i gau y ffyrdd yn Nefyn yn cael ei roi i fewn i Cyngor Gwynedd a cytunodd y gwirfoddolwyr i gyfarfod yn Siop Siarad ar y noson am 5.30yh. Bydd diweddariad ar y trefniadau yn cael ei roi ym mhwyllgor mis nesaf. Awgrymodd un o'r aelodau bod y Clerc yn cadw cofnod o'i oriau gan nad yw hyn yn rhan o'i dyletswyddau a bod rhaid talu yn ychwanegol iddi am hyn.

11. **Dyfynbris i symud y bwrdd gwybodaeth sydd ar Lôn yr Eglwys, Morfa Nefyn –** Clerc & Rhys Llewelyn
Ar ôl derbyn cais i symud yr hybysfwrdd ar Lôn yr Elgwys Morfa Nefyn i leoliad arall mae'r Clerc wedi derbyn amcanbris gan y contractwr wnaeth ei osod. Pwyntiodd y Clerc allan i'r aelodau y bydd angen rhoi cais arall i fewn i Cyngor Gwynedd os ydynt am ei symud sydd hefo cost o £237 ar ben cost y contractwr sydd yn mynd i gymeryd hyd at ddau fis i'w gymeradwyo ac hefyd bod y contractwr eisiau ei wneud yn glir nad ydyw yn gallu sicrhau y bydd yr hysbysfwrdd yn cael ei godi oddi ar y safle yn gyfa gan eu bod wedi cael eu gosod mewn concrid i sicrhau eu bod yna am flynyddoedd i ddod.
Penderfyniad: gan fod y gost o symud yr hysbysfwrdd yn ormod i'w gyfiawnhau fe fydd rhaid i'r person sydd wedi gwneud y cais i dalu am ei symud os ydyw yn dymuno gwneud hynny ond ei fod yn gorfod aros o fewn y llecyn yna.
Cynnig: Gito Williams     Eilio: Gareth Jones

12. **Y ffordd sydd yn dod i mewn i Nefyn o gyfeiriad Bryncynnan 20 mya –** Arfon Hughes
Derbyniwyd cais gan un o'r aelodau i symud yr 20mya ar y ffordd sydd yn dod i fewn i Nefyn o gyfeiriad Bryncynnan yn nes at Nefyn lle mae'r ffordd yn culhau a rhoi 30mya yn ôl yn ei le. Hefyd cynigiodd un o'r aelodau i ofyn am symud yr 20mya sydd yn Llithfaen i gychwyn o Bryn Môr a gorffen wrth y bont a rhoi 30mya bob man arall o fewn y pentref.
Penderfyniad: y Clerc i gysylltu hefo Cyngor Gwynedd i basio'r neges ymlaen iddynt.
Cynnig: Arfon Hughes     Eilio: Caren Jones

13. **Arwydd Parcio Lôn Gam –** Catrin Roberts
Fe fydd rhaid rhoi'r mater yma ar agenda mis nesaf gan nad yw'r aelod oedd eisiau ei drafod yn y cyfarfod.

14. **Rhandiroedd –** diweddariad

Clerc: Pat Humphreys
Cae'r Wydden, Lôn Isaf, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6BS.
• Symudol: 07901 704410 • Ebost: clerccyngortrefnefyn@gmail.com

Mae'r Clerc wedi cysylltu hefo'r contractwr a osododd y traeniau yn y rhandiroedd ac wedi cael cadarnhad bod dwy ddraen wedi cael ei gosod.

**15. Cynllun Peilot Dwyfor –** datblygiad o'r sgwrs ym mhwyllgor Medi
Cafwyd trafodaeth ar y mater yma lle cafodd yr aelodau gyfle i roi eu barn ar ganlyniadau'r sgwrs a gafwyd yn y pwyllgor diwethaf.

**16. Cynnig gan y Cynghorydd Jina Gwyrfai –** Diwygio Amodau Tai Teg
Derbyniwyd ebost yn rhoi diweddariad ar y mater ac yn gofyn am gefnogaeth pellach.
Penderfyniad: cytunodd yr aelodau i gefnogi'r cynnig.
Cynnig: Gruffydd Williams Eilio: Caren Jones

**17. Gohebiaeth a Dderbyniwyd**

- **Ebost Gardd Gymunedol Yr Heliwr**
  Derbyniwyd ebost uniaith Saesneg felly cynigiwyd ein bod yn cysylltu yn ôl gyda Tafarn yr Heliwr yn gofyn am yr ohebiaeth yn y Gymraeg gan ei bod yn Dafarn gydweithredol Gymreig.
- **Ebost Menter Iaith Gwynedd – Holiadur Iaith**
  Aethpwyd drwy'r holiadur a penderfynnu ar atebion i'r cwestiynnau.

**18. Ceisiadau Cynllunio**
**C23/0757/42/CC** – Rhos Bridin, Lôn Penrhos, Morfa Nefyn – gwaith i goed sydd yn destyn gorchymyn gwarchod Coed.
Penderfyniad: Cefnogi.
Cynnig: Arfon Hughes Eilio: Caren Jones

Ceisiadau Diweddarach
C23/0760/42/LL – Ship Inn, Lôn Gerddi, Edern – Cais ar gyfer ardal eistedd allanol newydd wedi ei orchuddio, bar, bar byrdrydau a podiau eistedd.
Penderfyniad: Cefnogi.
Cynnig: Arfon Hughes Eilio: Caren Jones

**19. Taliadau i'w gwneud**

**Anfonebau wedi eu derbyn i'w talu:**

- Cyflog y Clerc – £1301.44 (taliad Bacs)
- John Gwynfor Jones – angladd Hugh Vaughan Owen Thomas - £75.00
- Nefyn Sheds – Siediau – Sied Clwb Peldroed Penwaig Nefyn yn Bryn Mynach - £1238.00
- Snowdonia Fire & Security – Cynnal a chadw larwm diogelwch y Llyfrgell - £118.05
- Gareth Williams – trwsio arwydd Bryn Mynach ac ychwanegu canllaw ar y bont a ychwanegu canllaw ar llwybr Benrallt Nefyn - £142.92
- Rodney Jones - paent i beintio dau arwydd ym maes parcio y pysgotwyr yn Nefyn ar gyfer yr Eisteddfod - £49.33
- Llŷn Joinery Cyf – addasiadau yn y Llyfrgell - £3433.20
- Alan Adams – taliad 7 cytundeb llwybrau & gwaith ychwanegol - £1540.00
- D M Parry – trydydd taliad mynwent Edern a pedwerydd taliad mynwent Morfa Nefyn - £750.00

- Dylunio Swi – Creu a fframio anrheg Rhys Tudur - £200.00
- Clwb Ffermwyr Ieuainc Porthdinllaen - £500.00 (wedi ei basio yn yr Is-bwyllgor Ariannol)
- HMRC – PAYE Mis 6 - £242.31
- Cyngor Gwynedd – cyfraniad tuag at y traethau tymor 2023 - £5500.00
- John Gwynfor Jones – angladd Roy Jones, Gareth Vaughan Griffith, Margaret Elizabeth Evans a Gwenda Williams - £1900.00

Penderfyniad: Talu pob anfoneb.
Cynnig: Mared Llywelyn Williams    Eilio: Caren Jones

**20. Taliadau wedi eu derbyn**

- G W Parry – angladd Nesta Williams - £1000.00

Clerc: Pat Humphreys
Cae'r Wydden, Lôn Isaf, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6BS.
• Symudol: 07901 704410 • Ebost: clerccyngortrefnefyn@gmail.com